# Beth yw ystyr 'Anghenion Addysgol Arbennig'?

Mae gan blentyn anghenion addysgol arbennig os yw e ag anhawster dysgu sy'n galw am ddarpariaeth addysg arbennig.

Mae plentyn ag anhawster dysgu os yw e:-

- ag anhawster mwy sylweddol na'r rhan fwyaf o blant yr un oedran wrth ddysgu, neu
- ag anabledd sy'n ei atal neu'i rwystro rhag defnyddio cyfleusterau ysgol arferol yn yr ardal.

Mae'n bosibl y bydd cynifer ag un plentyn mewn pump ag anghenion addysgol arbennig yn ystod eu cyfnod addysg. Gall hyn ddigwydd yn gynnar iawn yn eu plentyndod, neu toc ar ôl i'r plentyn ddechrau yn yr ysgol, neu'n bellach ymlaen yng ngyrfa ysgol y plentyn.

Gall anawsterau dysgu fod oherwydd y canlynol (er enghraifft)

- Anabledd corfforol neu feddyliol
- Cyflwr meddygol
- Problemau gweld, clywed neu siarad
- Anawsterau emosiynol ac ymddygiadol
- Anawsterau gyda gwaith iaith, darllen neu rifau

I'r rhan fwyaf o blant, yr ysgol sy'n darparu ar eu cyfer ac mae gan gyrff llywodraethu ysgolion gyfrifoldebau i sicrhau bod adnoddau'r ysgol yn diwallu eu hanghenion.

O dan Gôd Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, rhoddwyd arweiniad ymarferol ar sut i adnabod, asesu a darparu ar gyfer plant ag anghenion addysgol arbennig. Mae'n argymell proses dau gam - 'Gweithredu gan yr ysgol' a 'Gweithredu gan yr ysgol a mwy' - gyda darpariaeth bellach ar gyfer asesiad statudol yn yr achosion hynny lle bo'r cymorth sy'n cael ei roi gan ysgolion trwy 'Gweithredu gan yr ysgol a mwy' yn annigonol i'r disgybl wneud cynnydd boddhaol.

Y ddau gam yw:-

**Gweithredu gan yr ysgol:** Mae pryderon yn cael eu mynegi ynglŷn â chynnydd y plentyn gan athro/athrawes neu riant ac mae cymorth ychwanegol yn cael ei roi i'r plentyn yn yr ysgol.

**Gweithredu gan yr ysgol a mwy:** Cais am gyngor ychwanegol, lle bo angen, gan seicolegwyr addysg, athrawon arbenigol, gweithwyr proffesiynol y gwasanaeth iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, ac asiantaethau eraill.

**Y Broses Asesu Statudol:** Yn seiliedig ar y dystiolaeth sy'n cael ei chyflwyno, bydd asesiad statudol o anghenion addysgol arbennig y plentyn yn cael ei gynnal. Os yw'r Gwasanaeth Addysg o'r farn (o ganlyniad i'r asesiad statudol) nad oes modd diwallu anghenion addysgol arbennig y plentyn gydag adnoddau arferol ysgol, bydd datganiad o anghenion addysgol arbennig yn cael ei baratoi.